# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** | | **ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST** |
| **DYDD MAWRTH, 23 EBRILL, 2013 am 2.00 o'r gloch** | | **TUESDAY, MAWRTH, 23 APRIL 2013 at 2.00 p.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**MEMBERS**

Councillors:

**Original Independent**

R Dew, Jim Evans, R Ll Hughes, K P Hughes, W T Hughes, Eric Jones, O Glyn Jones, A M Jones, G O Jones, B Owen, R L Owen, J V Owen, G O Parry MBE, Eric Roberts, G W Roberts OBE, E Schofield a Ieuan Williams

**The Party of Wales**

E G Davies, Lewis Davies, Mrs Fflur Hughes, W I Hughes, T Ll Hughes, Rhian Medi a R G Parry OBE

**Labour**

W J Chorlton, C Ll Everett, R Dylan Jones, Raymond Jones a J A Roberts

**Llais i Fôn**

T H Jones, C McGregor a S Williams

**Unaffiliated**

H E Jones, R Ll Jones a P S Rogers

# A G E N D A

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2013.

3 **GWEINYDDU BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (B)** (Tudalennau 5 - 10)

(a) Croesawu Mr. Philip Heath, Weightmans LLP i'r cyfarfod.

(b) Cyflwyno adroddiad gan Gyfreithiwr Weightmans ar ran Swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

4 **PLACIAU CYDNABOD CYFRANIAD** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r uchod.

5 **CANLYNIADAU DRAFFT 2012/2013 A CHYLLIDEB 2013/2014** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr. Elwyn Schofield – Cadeirydd<br><br>Y Mri. E.G. Davies, Lewis Davies, Richard A. Dew, Jim Evans, Keith Evans, Mrs. Fflur M. Hughes, K.P. Hughes, R.Ll. Hughes, Vaughan Hughes, W.I. Hughes, A.M. Jones, Eric Jones, O. Glyn Jones, R. Dylan Jones, C. McGregor, Bryan Owen, G.O. Parry MBE, Eric Roberts, Ieuan Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW**: | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau),<br>Pennaeth Gwasanaeth(Cyllid),<br>Pennaeth Gwasanaeth(Hamdden a Diwylliant),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol(RJ),<br>Cyfrifydd Trysorlys/Cyfalaf(BD),<br>Swyddog Pwyllgor(MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Mri. W.J. Chorlton, C.Ll. Everett, D.R. Hughes, Raymond Jones, T.H. Jones, Mrs. Rhian Medi, R.L. Owen, Bob Parry OBE, J. Arwel Roberts, Peter S. Rogers. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd Ms. Clare Williams, Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau) i'r Ymddiriedolaeth Elusennol. Nododd bod yr Ymddiriedolaeth yn penodi Prif Swyddog Cyllid y Cyngor yn Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol fel arfer.

**PENDERFYNWYD penodi Ms. Clare Williams yn Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan Mr. Selwyn Williams ynglyn â Chanolfan Goffa Porthaethwy.

### 2. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 29 Mai, 2012.

### 3. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

#### 3.1 Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

Cadarnhawyd a mabwysiadwyd, fel y bo'r angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 7 Tachwedd, 2012.

#### 3.2 Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

Cadarnhawyd a mabwysiadwyd, fel y bo'r angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 10 Gorffennaf 2012.

**YN CODI O'R COFNODION**

**EITEM A GYMERWYD YN BREIFAT**

**Cais 46 - Môn FM (Prosiect Radio Cymunedol)**(I gyllido trosglwyddydd ac offer erial)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn perthynas â'r uchod.

Nodwyd bod y cais gan Môn FM wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ar 10 Gorffennaf 2012, pryd ystyriwyd bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r sefydliad er mwyn medru gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch dyfarnu grant. Roedd y cais yn un am £10k, er bod yr uchafswm ar gyfer y grantiau hyn yn £6k. Roedd y Cynllun Busnes, manylion am y strwythur (manylion ynghylch yr Ysgrifennydd/Trysorydd ac ati), amodau'r Drwydded Weithredu a gwybodaeth am grantiau eraill a gafwyd ynghlwm wrth yr adroddiad er gwybodaeth.

Adroddwyd hefyd fod Trwydded wedi ei chynnig i Menter Môn, ar ran Môn FM, ond nad oedd wedi ei rhoi hyd yma i Menter Môn, ar ran Môn FM. Roedd hyn oherwydd mai dim ond cwmnïau cyfyngedig fedr ddal trwydded radio cymunedol.

Mae'r gyllideb o £50k a neilltuwyd ar gyfer y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol wedi ei defnyddio'n llawn. Oherwydd bod blwyddyn 2012/13 yn prysur ddod i ben, mae'r proffil cyllidol wedi ei adolygu a nodwyd fod £16k ar ôl oherwydd nad oedd grantiau wedi eu cymryd i fyny. Nid oedd hynny wedi ei nodi yn y gyllideb wreiddiol.

Mynegodd Aelodau'r Ymddiriedolaeth eu bod yn gwbl gefnogol i gais Môn FM oherwydd y bydd yn hyrwyddo gweithgareddau o'r fath ac y bydd o fudd i bobl ifanc ar yr Ynys sy'n dymuno cymryd rhan yn y byd darlledu a'r cyfryngau.

**PENDERFYNWYD**

- **rhoi grant o £6k i Môn FM, yn amodol ar ddatrys mân-fanylion rhwng Swyddogion a'r sefydliad;**
- **gofyn i Môn FM gyflwyno cais pellach, os ydynt yn dymuno, dan y trefniadau arferol ar gyfer gwahodd ceisiadau.**

**4. (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2011/12**

Cyflwynwyd – i'w fabwysiadu, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2011/12.

Ers cylchredeg yr adroddiad a'r cyfrifon drafft i'r Aelodau, adroddwyd bod yr archwiliad wedi ei gwblhau a dim ond mân gamgymeriad rowndio a nodwyd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2011/12 ac awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i lofnodi fersiwn derfynol yr adroddiad ar ôl gwneud y mân newidiadau.**

**(B) ORIEL YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynghyd ag adroddiad, er gwybodaeth, gan y Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden a Diwylliant) ar gyflawniadau a pherfformiad Oriel Ynys Môn yn 2011/12.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol er gwybodaeth a sgriwtini.**

**5. GWEINYDDU'R YMDDIRIEDOLAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd yr Ysgrifennydd bod trafodaeth wedi bod yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 29 Mai 2012 ynghylch priodoldeb sefydlu trefniadau gweinyddol gwahanol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a fyddai'n annibynnol ar drefniadau gweinyddol y Cyngor. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar rai opsiynau ar gyfer allanoli'r gwaith gweinyddol neu sefydlu system weinyddol benodol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Cyfeiriwyd at roi swm o £20,000 o'r neilltu ar gyfer cynnal astudiaeth ar ddichonoldeb y cynnig, ond ni wnaed penderfyniad ffurfiol i'r perwyl. Nodwyd Panel i roi rhagor o sylw i'r mater gyda'r bwriad iddo ateb yn ôl i'r Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Panel wedi cyfarfod hyd yma, ond, yn y cyfamser, cafwyd nifer o gyfarfodydd rhwng Swyddogion, a rhwng Swyddogion a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth.

Ar hyn o bryd mae cwestiynau wedi codi ynghylch y berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth sy'n mynd y tu draw i'r trafodaethau ynghylch gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth oddi wrth weinyddiaeth y Cyngor. Yn y lle cyntaf, roedd y Swyddogion yn credu nad oedd ganddynt, yn eu barn hwy, yr arbenigedd na'r capasiti i ddarparu cymorth cynhwysfawr ac effeithiol i'r Ymddiriedolaeth. Erbyn hyn, roedd ystyriaethau eraill yn dod i'r wyneb mewn perthynas â sicrhau bod cyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas fel endid elusennol a chanddi'r nod o fod o fudd cyhoeddus cyffredinol i drigolion Ynys Môn y tu draw i'r meysydd y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdanynt.

Roedd y Cadeirydd a'r Swyddogion o'r farn y dylai'r Ymddiriedolaeth ofyn am gyngor ac arweiniad arbenigol ar gyfer yr aelodau fel bod modd iddynt benderfynu pa mor addas i'r pwrpas yw'r cyfansoddiad cyfredol, y priodoldeb o sefydlu terfynau clir rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth a'r ffordd o ddelio gydag asedau'r Ymddiriedolaeth a'r dulliau a fabwysiedir i hyrwyddo budd cymunedol trwy ddyfarnu grantiau ac ati.

Adroddodd yr Ysgrifennydd ymhellach bod busnesau allanol wedi datgan diddordeb mewn prynu safle Rhosgoch, sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cymeradwyo caffael cyngor arbenigol, yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Elusennol, er mwyn cynorthwyo yn y broses o werthu'r safle, yn dilyn arweiniad a roddwyd gan ei Swyddogion ei hun nad oedd ganddynt y sgiliau na'r wybodaeth arbenigol i gynghori a chefnogi'r broses.

Roedd yr Aelodau yn cytuno bod rhaid i fusnes yr Ymddiriedolaeth Elusennol a'r Cyngor Sir fod ar wahân. Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD :-**

- **Caffael cyngor arbenigol i ystyried pa mor addas i'r pwrpas yw cyfansoddiad cyfredol yr Ymddiriedolaeth a'i threfniadau gweinyddol yng nghyd-destun y newidiadau diweddar i strwythur gwleidyddol y Cyngor ei hun a'r cyfleon newydd sy'n codi ar gyfer budd cymunedol yn Ynys Môn;**
- **Cadarnhau'r angen i gaffael gwasanaethau Syrfëwr Cymwys i hwyluso'r broses o werthu safle Rhosgoch;**
- **Awdurdodi Trysorydd yr Ymddiriedolaeth, i gaffael y cyngor arbenigol angenrheidiol, gan lynu wrth drefniadau caffael y Cyngor, fel pecyn cynhwysfawr ac i ryddhau swm o £20,000 ar gyfer y gwaith mewn perthynas ag adolygu'r cyfansoddiad a'r weinyddiaeth;**
- **Nodi y bydd gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol a'r tir yn Rhosgoch yn cael eu trin ar wahân.**

**6. CAIS AM GYLLID GAN Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod Panel Rhiant Corfforaethol y Cyngor Sir, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2012, wedi penderfynu 'cyflwyno cais i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ei fod yn ystyried darparu cyllid cyfatebol bob blwyddyn i gyd-fynd â'r cyfraniad o £200 bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru i Gyfrif Cynilion Unigol pob plentyn sy'n derbyn gofal.'

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod angen i unrhyw brosiect, er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid, gydymffurfio â dibenion elusennol cyffredinol a phenodol yr Ymddiriedolaeth Elusennol a disgyn o fewn y Datganiad o Flaenoriaethau Cyllido. Nodwyd mai Dibenion Elusennol yr Ymddiriedolaeth yw budd cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref. Nid yw'r cais yn ffitio'n dda gydag amcanion yr Ymddiriedolaeth.

Fel Cadeirydd y Panel Rhiant Corfforaethol, dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod yn dymuno nodi nad yw wedi cymryd unrhyw ran yn y drafodaeth ar y cais hwn.  Nododd bod Mr. K.P. Hughes a Mr. J.V. Owen yn aelodau o'r Panel Rhiant Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r cais yn ôl i'r Panel Rhiant Corfforaethol ar y sail nad yw'r cais yn gymwys oherwydd :-**

- **Dibenion Elusennol yr Ymddiriedolaeth yw budd cyhoeddus cyffredinol pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref;**
- **Nid yw'r cynnig yn disgyn o fewn y dibenion penodol yng Ngweithred yr Ymddiriedolaeth;**
- **Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar ei Flaenoriaethau Cyllido yn nodi, ac eithrio Oriel Ynys Môn a gweithgareddau eraill a gymeradwywyd cyn Ebrill 2007, na fydd prosiectau a weithredir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi.**

**MR. ELWYN SCHOFIELD**
**CADEIRYDD**

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Ymddiriedolaeth Llawn |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Placiau Cydnabod Cyfraniad |
| **Adroddiad gan:** | Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth |
| **Swyddog Cyswllt:** | Carol Snowden (Cymhorthydd Gweinyddol) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Gofyn i aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cyflwyno placiau i gydnabod cyfraniad y corff yn ariannol i brosiectau mudiadau a chyrff gwirfoddol ar yr Ynys sy'n derbyn grant ganddo |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion i fabwysiadu trefn o gyflwyno placiau cydnabod. |

## PLACIAU CYDNABOD

1. Yn unol â'r gweithdrefnau a'r amodau a fabwysiadwyd ganddo, mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn gwahodd ceisiadau'n flynyddol gan fudiadau a chyrff gwirfoddol led led yr Ynys am gyfraniad ariannol tuag at eu gweithgareddau. Bydd cyfraniad yr Ymddiriedolaeth fel arfer yn symiau ariannol hyd at £6,000 y tro o fewn canllawiau arbennig sydd wedi eu gosod gan aelodau'r Ymddiriedolaeth, a'r arian sydd ar gael yn y gronfa benodol i'r pwrpas. Rhestrir isod enghreifftiau o'r math o geisiadau i dderbyn cymeradwyaeth yn y cyfnod diweddar:

   - Canolfan Gymuned a Chyn-filwyr Benllech (£950)
   - Castle Players Beaumaris (£6,000)
   - Geidiau Caergybi (£3,588)
   - Cae Chwarae Thomas Close Beaumaris (£3,855)
   - Clwb Peldroed Bro Goronwy (£1,798)
   - Cymdeithas Cae Chwarae Rhosmeirch (£6,000)
   - Canolfan Cymuned Rhosybol (£6,000)
   - Canolfan Esceifiog Gaerwen (£6,000)

Gwelir o'r rhestr uchod fod grantiau'r Ymddiriedolaeth yn aml yn gyfraniad tuag at atgyweirio neu wella gwedd adeiladau a ddefnyddir i bwrpas cymunedol gan gyrff gwirfoddol, yn ogystal â chymorth i brynu dodrefn neu adfer i hyrwyddo'r gweithgareddau. Yn fynych bydd cost y prosiect yn fwy o gryn dipyn na'r grant a dderbynnir gan yr Ymddiriedolaeth a bydd asiantaethau eraill yn cyfrannu at y gost. Tra bod yr asiantaethau rheini'n aml yn mynnu fod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod yn weladwy (er enghraifft ar blac ar wal yr ystafell gymunedol neu ar y dodrefnyn) nid oes unrhyw beth i gydnabod cyfraniad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, er mai'r corff hwn yn aml yw'r prif gyfrannwr, ac ym marn swyddogion yr Ymddiriedolaeth nid oes digon yn cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r Ymddiriedolaeth a'r cyfraniad ariannol a wneir ganddo at wahanol weithgareddau sy'n derbyn grant.

3. Awgrymir y gallai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno plac syml i nodi cyfraniad tuag at y prosiect lle bo modd i hynny fod yn weladwy, ac y dylid trefnu cyfarfod i'w gyflwyno gan naill ai Gadeirydd neu aelod lleol o'r Ymddiriedolaeth a chyhoeddi hynny. Amcangyfrifir y byddai cost placiau o'r fath tua £35 yr un ac mai'r uchafswm tebygol o gost mewn unrhyw un flwyddyn fyddai £420. Ar achlysuron prin pan yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu at brosiect sylweddol (hynny yw gweithgaredd sy'n derbyn mwy na £50,000 o gyfraniad) yna gellid darparu plac cydnabod mwy sylweddol ei faint a'i gost i'w gytuno rhwng y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r swyddogion.

4. **ARGYMHELLION**

Argymhellir fod aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo:

i) Yr egwyddor o ddarparu placiau cydnabod cyfraniad ariannol gan yr Ymddiriedolaeth I brosiect lleol;

ii) Fod yr Ymddiriedolaeth yn neilltuo swm o hyd at £500 yn flynyddol ar gyfer y pwrpas i'w adnabod o'r gronfa grantiau i fudiadau a chymdeithasau lleol;

iii) Fod trefniadau'n cael eu gwneud gan y swyddogion o'r Cadeirydd neu'r aelod lleol gyflwyno'r plac i'r mudiad perthnasol i gyd-fynd â throsglwyddo'r grant i gefnogi'r prosiect.

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **23 EBRILL 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CANLYNIAD DRAFFT 2012/13 A CHYLLIDEB 2013/14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU'R STRATEGAETH AC AMLINELLU'R GYLLIDEB** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB A DIRPRWYO SWM I'W DDYRANNU I GRANTIAU BLYNYDDOL** |

## 1. Crynodeb

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido 2013/14 ac i ddirprwyo pŵerau cyllido ar gyfer cyfleusterau cymunedol a grantiau bychan i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Mae'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yma yn seiliedig ar ganlyniad a ragamcanwyd ar gyfer 2012/13.

**1.2** Golyga'r canlyniad a ragamcenir ar gyfer 2012/13 fod yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2013 yn cael ei amangyfrif fel gwarged o £43k. Gyda'r tŵf rhagamcanedig yn incwm buddsoddi, a chan rhagdybio parhâd y lefelau cyllido grant cyfredol (gyda chyllido Oriel Ynys Môn yn gostwng i £200k erbyn 2014/15), rhagamcenir bydd arian wrth gefn refeniw yn cynyddu i £300k yn 2014/15. Oherwydd yr ansicrwydd cyfredol o amgylch gweinyddiaeth dyfodol yr Ymddiriedolaeth, argymhellir ni ddylid dyrannu'r gwarged rhagamcanedig yma ar hyn o bryd.

**1.3** Y gyllideb grantiau argymhellir ar gyfer 2013/14 yw :-

- Oriel Ynys Môn £215k;
- Neuaddau Pentref £66k; a
- Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Bychan £50k (y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gael awdurdod dirprwyedig i wneud y dyraniadau grant yma).

## 2. Canlyniad a Ragamcenir

**2.1** Mae'r canlyniad a ragamcenir a'r arian wrth gefn refeniw ar gyfer 2012/13 yn wahanol i'r strategaeth a'r gyllideb fel a ganlyn:-

- Roedd incwm buddsoddi ar gyfer 2011/12 yn £28k (7%) yn uwch na'r rhagamcan ym Mai 2012;
- Roedd 'Grantiau arall' yn £6k (12%) yn uwch na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y dyfarnaid wnaed i Môn FM gan yr Ymddiriedolaeth lawn (gyda'r costau'n cael eu cwrdd gan y dyraniadau a ildiwyd yn 2011/12);
- £16k oedd y dyraniadau a ildiwyd yn 2011/12 (oherwydd darbodaeth, ni chynhwysir dyraniadau a ildiwyd o fewn yr adroddiadau gosod y gyllideb flynyddol); a
- Roedd incwm buddsoddi net o wariant amrywiol bychan yn £14k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar amser yr adroddiad gosod y gyllideb 2012/13.

**2.2** Mae'r canlyniadau a ragamcenir (sy'n cael eu crynhoi yn y tabl isod) yn golygu bod arian wrth gefn refeniw ar 31 Mawrth 2013 yn warged o £43k (amcangyfrif).

**2.3** Nodir grantiau yn yr arian wrth gefn refeniw pan wneir ymrwymiad i drydydd parti. Mewn achos grantiau sydd i'w dynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd, efallai

cyllidir rhain o incwm buddsoddi'r dyfodol. Gall y polisi arian wrth gefn a awgrymir gan y strategaeth ariannol a weithredwyd yn 2009/10, efallai ganiatau fod yr arian wrth gefn refeniw yn disgyn i mewn i ddiffyg, ar yr amod fod rhagamcanion y llif arian yn dangos gall gwrdd ag ymrwymiadau arian parod a bod yr arian wrth gefn refeniw yn dychwelyd i warged dros y cyfnod y tynnir i lawr.

**2.4** Yn ystod 2011/12 roedd yr arian wrth gefn mewn diffyg am y tro cyntaf, ond datganwyd hyn ar ôl dileu'r gwerth llawn o'r £300k ar gyfer cyfnod 2 y Cynllun Datblygu Gwledig - sydd i'w dynnu i lawr dros nifer o flynyddoedd. Ar y pryd hynny, rhagamcanwyd byddai'r arian wrth gefn refeniw yn dychwelyd i warged yn ystod 2013/14, sef o fewn amserlen y CDG.

**2.4.1** I grynhoi'r sefyllfa, roedd y diweddariad i'r strategaeth a luniwyd yn Ebrill 2012 yn seiliedig ar y rhagamcanion dangosol hyn:-

| | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi* | 454 | 468 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad* | (36) | (37) |
| Ar gael i'w wario | 418 | 431 |
| * a thybio y bydd yn tyfu ar 3% y flwyddyn | | |

Gwariant ar:-

| | | |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | (230) | (215) |
| Neuaddau Pentref | (66) | (66) |
| Grantiau eraill | (50) | (50) |
| Cyfanswm Dyraniadau | 346 | 331 |
| I/(O) Arian wrth gefn | 72 | 100 |
| Gwarged/(diffyg) rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn | (9) | 91 |

**2.5** Gellir yn awr ddiweddaru hyn ar gyfer canlyniad 2011/12 a chanlyniad a ragamcenir yn 2012/13. Mae incwm buddsoddi'n cael ei ragamcan ymlaen fel patrwm twf 3% o waelodlin uwch. Cadarnhawyd cyllid Oriel Ynys Môn yn ffurfiol fel cytundeb tair blynedd yn Rhagfyr 2009 ac felly ni ddaru'r ffigyrau hyd at a chynnwys 2011/12 newid. Fel rhan o osod cyllideb 2012/13, y cynnig ar gyfer Oriel Ynys Môn oedd i ostwng cyllid i £200k y flwyddyn erbyn 2014/15 a phenderfynwyd mai £230k oedd cyllideb 2012/13. Mae hyn yn rhoi rhagamcanion diwygiedig (gan anwybyddu dyryniadau a ildiwyd) fel a ganlyn:-

| Incwm Buddsoddi | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 482 | 496 | 511 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad | (35) | (36) | (37) |
| Ar gael i'w wario | 447 | 460 | 474 |

Gwariant grant

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | (230) | (215) | (200) |
| Neuaddau Pentref | (66) | (66) | (66) |
| Grantiau | (56) | (50) | (50) |
| | 352 | 331 | 316 |

Symudiadau yn yr arian wrth gefn

| | | | |
|---|---|---|---|
| I/(O) Arian wrth gefn | 95 | 129 | 158 |
| Gwarged/(Diffyg) a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn | 43 | 172 | 330 |

**2.5.1** Fel y gwelir, dangosir y rhagamcanion diweddaraf fod incwm buddsoddi wedi mynd tu hwnt i'r rhagamcanion cychwynnol ac mae'r arian wrth gefn refeniw wedi dychwelyd i sefyllfa warged blwyddyn o flaen y disgwyliadau blaenorol.

**2.5.2** Dylid nodi fod cronfeydd cronni o fewn y portffolio buddsoddi. Mae'r cronfeydd yma'n talu difidend mewn ffurf unedau buddsoddi yn hytrach nag arian parod ac yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfalaf uwch yn hytrach nag arian wrth gefn refeniw. Fel adroddwyd yn nogfen gosod y gyllideb 2012/13, ac fel trafodwyd yn fyr ym Mhwyllgor Buddsoddi a Chontractau ar Mai 22, 2012, gellid cyfiawnhau ei ystyried fel refeniw ac mae hyblygrwydd i'w gydnabod fel hyn. Fe'n cynghorwyd fod yr incwm ar hyn o bryd oddeutu £30k. Yn ystod y flwyddyn, petai'r Ymddiriedolaeth yn dymuno hyn, gellir adolygu ac adrodd ar gwerth yr incwm a'r goblygiadau o adolygu'r cydnabyddiaeth o'r incwm yma.

**3. Ystyriaethau'r Dyfodol : Costau Gweinyddu**

**3.1** Mae adroddiad ar wahân ar yr agenda yma'n trafod gweinyddu'r dyfodol o'r Ymddiriedolaeth. Mae'n rhy fuan i roi amcangyfrifon cywir o gostau'r newid yma ond mae'n debygol bydd ffioedd cyfreithiol a chostau sefydlu yn ogystal â chostau parhaus gweinyddu.

**3.1.1** Amcangyfrifir bydd costau parhaus gweinyddu o leiaf £60k y flwyddyn, yn seiliedig ar:-

- Ffioedd o 10% o'r pot grantiau a godir mewn amgylchiadau tebyg i gyrff dyfarnu grantiau arall; a
- Costau arall, yn ychwanegol i'r rheini a godir ar hyn o bryd i'r Ymddiriedolaeth – bydd yn cynnwys gweinyddiaeth cyffredinol ac ariannol, cyfrifo a chyngor cyfreithiol ac arall.

**3.2** O ystyried ansicrwydd y costau yma, fy nghyngor yw na ddylid dyrannu'r gwarged rhagamcanedig ar hyn o bryd. Bydd angen dychwelyd i'r strategaeth ariannol ar ôl yr etholiad ac unwaith mae'r penderfyniad ar weinyddiaeth y dyfodol wedi cael ei wneud.

**4. Y Cylch Cyllido 2013/14**

Cyhoeddwyd hysbysebion am grantiau blynyddol yn gynnar yn Ebrill 2013, gyda dyddiad cau o 10 Mai 2013 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 5(b) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

**5. Argymhellion**

**(a)** Cadarnhau'r strategaeth wedi ei ddiweddaru a meinhau'n raddol grant Oriel Ynys Môn gan £15k y flwyddyn.

**(b)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2013/14 fel a ganlyn :-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 66k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Bychan | £ 50k |

**(c)** Dirprwyo swm o £50k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau.

**(ch)** Dychwelyd i'r strategaeth ariannol ar ôl yr etholiad ac unwaith mae'r penderfyniad ar weinyddiaeth y dyfodol wedi cael ei wneud.

**CLARE J WILLIAMS**
**TRYSORYDD**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **15 EBRILL 2013**

This page is intentionally left blank